**LC1285**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

## Gorchymyn Iawndal Gwartheg (Cymru) 2006

Mae'r Gorchymyn yma yn darparu ar gyfer cyfraddau iawndal pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i anifail buchol gael ei gigydda o dan adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 wrth ei chymhwyso i frwselosis, twbercwlosis neu lewcosis buchol ensöotig. Mae’r Gorchymyn yn darparu bod yr iawndal i’w ganfod drwy ddefnyddio system o werthoedd penodedig mewn tabl ar gyfer 47 o gategorïau o anifeiliaid buchol heb bedigri ac anifeiliaid buchol pedigri a hynny ar sail prisiau gwerthu sydd wedi’u sicrhau o amrywiaeth mawr o ffynonellau.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae erthygl 1(2) o’r Gorchymyn yn dweud bod y Gorchymyn "yn gymwys yng Nghymru yn unig". Mae’r Pwyllgor wedi dweud mai "yn gymwys o ran Cymru" yw’r ymadrodd gorau. [Rheol Sefydlog 11.7 (v)]

Mae yna anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg yn y diffiniad o "anifail yr effeithiwyd arno". Mae’r testun Saesneg yn diffinio anifail yr effeithiwyd arno fel pe bai’n cynnwys anifail sy’n dioddef peswch cronig neu sy’n amlygu unrhyw arwyddion clinigol eraill o dwbercwlosis.

Mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at anifail sy'n dioddef o beswch cronig ac sy'n amlygu unrhyw arwyddion clinigol eraill o dwbercwlosis. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn nhestun Saesneg y diffiniad o "suspected animal", dylai’r gair "the" gael ei fewnosod ar ddechrau paragraff (b). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae’r Atodlen i’r Gorchymyn yn nodi sut mae’r iawndal i gael ei gyfrifo. Mae paragraff 1 yn gymwys i anifeiliaid heb bedigri ac mae paragraff 2 yn gymwys i anifeiliaid pedigri. Mae paragraff 1(2) yn dweud mai’r swm a gyfrifir yn unol â’r dull a nodir yno fydd yr iawndal, ond mae paragraff 2(2) yn dweud bod rhaid iddo gael ei gyfrifo yn unol â’r dull a nodwyd yn y paragraff hwnnw. Mae’n briodol defnyddio "fydd" wrth ddisgrifio canlyniad, ac os dyna’r bwriad yna dylai "fydd" gael ei ddefnyddio ym mharagraffau 1(2) a 2(2). Ond, os rhagnodi’r dull cyfrifo yw’r bwriad, yna "rhaid" yw’r mwyaf priodol. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Gall y mân wallau ac anghysondebau drafftio uchod gael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Byddai troednodyn ar gyfer Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Cymru) 2006 y cyfeirir ato yn erthygl 3(5) (a) o gymorth i’r darllenydd. Gall gael ei fewnosod wrth gyhoeddi’r Gorchymyn.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 16 Mai 2006